**Pwyllgor Datblygu Economaidd**

**Dyddiad:** 15 Medi 1999

**Lleolid:** Ystafell Bwyllgora 1, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol

**Teitl:** Papur gwybodaeth

## Cyflwyniad

1.1 Mae'r Papur hwn yn rhoi gwybodaeth gefndir ar y WDA; ei berfformiad ar gyfer 1998-1999; amcanion a thargedau ar gyfer 1999-2000; y blaenoriaethau ar gyfer 2000-2003 a'r cynlluniau cyllideb ar gyfer 2000-2001.

1.2 Nod gyffredinol yr Awdurdod yw cynyddu ffyniant pobl Cymru. Amcan gweithgareddau'r Awdurdod (a gaiff eu crynhoi yn y ddogfen 'Awdurdod Datblygu Cymru – Gwybodaeth') yw hwyluso, meithrin ac ysgogi datblygu busnes fel y gofyniad allweddol ar gyfer hyrwyddo ffyniant.

**Perfformiad yr Awdurdod ar gyfer 1998-1999**

2.1 Bu ailstrwythuro sylweddol ar yr Awdurdod yn ystod 1998-1999, yn dilyn yr uniad gyda Bwrdd Datblygu Cymru Wledig ac Awdurdod Tir Cymru a rhoddwyd cyfrifoldeb iddo hefyd dros Hybu Bwyd Cymru Cyf.

2.2 Yn ystod y cyfnod hwn o newid mae rhai o'r canlyniadau a gyflawnwyd gan yr Awdurdod yn cynnwys:

| | **Targed** | **Alldro** |
|---|---|---|
| Swyddi a grëwyd neu a ddiogelwyd: | 11,250 | 15,663 |
| • Y tu allan i goridorau dwyreiniol yr M4/A55 coridorau<br>• Drwy fewnfuddsoddiad | O leiaf 5,625 (50%)<br><br>6,300 | 6,431 (57.2%)<br><br>7,475 |
| Buddsoddiad Sector Preifat | £480m | £435.6m |

| | | |
|---|---|---|
| Busnes newydd a enillwyd gan gwmnïau Cymru yn cymryd rhan yn rhaglenni'r WDA | £35m | £34m |
| Hectarau o dir a adferwyd | 370 | 301 |

**Amcanion a Thargedau 1999-2000**

Mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi gosod y targedau strategol dilynol ar gyfer 1999 – 2000:

3.1 Swyddi

| | Cyfanswm | Cymoedd a Gorllewin | Dwyrain |
|---|---|---|---|
| Creu/Diogelu<br><br>Yng nghyswllt: | 17,000 | 9,500 | 7,500 |
| • gweithgareddau/prosiectau datblygu busnes newydd a phresennol | 10,000 | 4,500 | 5,500 |
| • gweithgareddau/prosiectau mewnfuddsoddiad | 7,000 | 5,000 | 2,000 |

3.2 Buddsoddiad Sector Preifat

| | Cyfanswm | Cymoedd a Gorllewin | Dwyrain |
|---|---|---|---|
| Ysgogi Buddsoddiad Sector Preifat | £550m | £280m | £270m |
| Yng nghyswllt:<br><br>• gweithgareddau/prosiectau datblygu busnes newydd a phresennol | £260m | £80m | £180m |
| • gweithgareddau/prosiectau mewnfuddsoddiad | £290m | £200m | £90m |

3.3 Marchnadoedd Allforio

Sicrhau busnes newydd o leiaf £11m a enillwyd mewn marchnadoedd allforio.

**Ateb y blaenoriaethau ar gyfer 2000 – 2003**

4.1 Mae 'Llunio Llwyddiant' – Cynllun Corfforaethol y WDA 2002 – 2003 – yn gosod y fframwaith ar gyfer gweithgareddau'r Awdurdod yn ystod y tair blynedd nesaf a thu hwnt. Mae'n adeiladu ar y weledigaeth a nodwyd yn 'Ffordd i Ffyniant' a'r Strategaeth Datblygu Economaidd Genedlaethol (NEDS). Mae NEDS wedi gosod targedau caled ar gyfer CMC per capita

- Cymru i gyrraedd 90% o gyfartaledd y DU erbyn 2010;
- Y Gorllewin a'r Cymoedd i gyrraedd 81% o gyfartaledd y DU erbyn 2010.

4.2 Mae 'Llunio Llwyddiant' yn seiliedig ar ddadansoddiad trwyadl o economi Cymru. Dynododd y dadansoddiad hwnnw mai'r brif her i bolisi datblygu economaidd oedd y bwlch sylweddol a dyfal rhwng lefel cyfartalog ffyniant yng Nghymru a'r DU. Bydd Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd yn rhoi cyfle i annog y mathau o newid strwythurol fydd ei angen i ateb y targedau tymor-hir hyn.

4.3 Daeth y dadansoddiad economaidd i'r casgliad y bydd diffyg galw, gor-ddibyniaeth ar sectorau twf isel, cyfraddau cyflog isel a tan-ddatblygiad menter yn golygu y bydd y bwlch ffyniant hwn yn parhau i dyfu.

4.4 Mae 'Llunio Llwyddiant' yn trafod yr angen i gulhau'r bwlch ffyniant a chyflawni targedau NEDS. Dynodwyd pedwar maes allweddol ar gyfer gweithredu blaenoriaeth:

- Rhyngwladoli: Mae twf allforion yn hanfodol i ysgogi galw am gynnyrch Cymru.

- Gwerth Ychwanegol Uwch: Rhaid i Gymru arallgyfeirio i sectorau 'masnachadwy' sy'n ychwanegu gwerth uchel ac sy'n seiliedig ar wybodaeth ac yn dwf cyflym.

- Cyfranogiad: Rhaid i'r rhwystrau sy'n atal pobl rhag gweithio yng Nghymru gael eu dynodi a'u goresgyn ar yr un pryd ag y cynyddir cyfleoedd gwaith yn sylweddol ledled Cymru.

- Menter: Rhaid i Gymru esblygu hinsawdd a diwylliant sy'n ysgogi, cefnogi a denu pobl a chwmnïau creadigol a mentrus.

4.5 Gosodwyd y mesurau allbwn traddodiadol o swyddi a buddsoddiad sector preifat a restrwyd yn Adran 3.0 i'r Awdurdod. Mae'r Awdurdod hefyd wrthi'n datblygu fframwaith arolygu-perfformiad fydd yn asesu effaith uniongyrchol ac anuniongyrchol gweithgareddau'r Awdurdod ar yr amcanion dilynol:

- lefel allforion

- gwerth ychwanegol fesul gweithiwr

- cyfraddau gweithgaredd ac enillion

- ffurfiant a thwf cwmnïau.

4.6 Yn dilyn y broses ymgynghori ar ‘Llunio Llwyddiant’, bydd yr Awdurdod yn pennu ei flaenoriaethau strategol a dynodi a gweithredu gweithgareddau effaith uchel. Bydd hyn yn cynnwys adeiladu ar raglenni llwyddiannus a datblygu cynlluniau newydd i gyflwyno cymysgedd briodol o enillion tymor-byr a newidiadau strwythurol tymor-hwy.

4.7 Mae’r Cynllun Corfforaethol yn dynodi nifer o hanfodion os yw Cymru i ddatblygu yn gyflym ac yn gynaliadwy. I ffynnu a thyfu, mae busnesau yng Nghymru yn dibynnu ar ddatblygu sgiliau, agwedd ac uchelgais pobl. Rhaid hefyd ddatblygu’r isadeiledd priodol ar gyfer meithrin, denu a chadw cwmnïau gwerth ychwanegol ucfhel a sgiliau uchel.

1. Bydd yr Awdurdod yn annog busnes yn uniongyrchol a bydd yn gweithio gydag asiantaethau eraill sy’n annog busnes. Mae’r Cynllun Corfforaethol yn nodi amrediad o weithgareddau yn unol â’r blaenoriaethau hyn – cynhelir rhai ohonynt gan yr Awdurdod ei hunan – y ffordd orau o gynnal eraill yw gan amrediad eang yr Awdurdod o bartneriaid, gyda chefnogaeth ac anogaeth yr Awdurdod.

**Cynlluniau Cyllideb ar gyfer 2000-2001**

1. Ac eithrio cyllid Ewropeaidd ychwanegol a darpariaeth ar gyfer ymrwymiadau Corfforaeth Datblygu Bae Caerdydd (CDBC), mae’r gyllideb fynegol tua £200 miliwn, sy’n cynnwys tua £25 miliwn ar gyfer y Gyfadran Tir. Mae ymrwymiadau cytundebol a gwariant arall anosgoadwy ar gyfer 2000-2001 eisoes yn gyfanswm o tua £105 miliwn. Mae’r rhain yn cynnwys costau staff a gweithgareddau megis darpariaeth safleoedd ac adeiladau allweddol, cynlluniau adfer tir, cynlluniau adnewyddu trefi a chefnogaeth i sefydliadau partner. Yn hanesyddol, cafodd cyllideb yr Awdurdod ei ariannu’n rhannol drwy werthu asedau a derbyniadau hunangynyrchedig eraill. Gyda gostyngiad y sylfaen asedau, fel a nodwyd ar achlysuron blaenorol, mae’n debyg y bydd y cyllid hwn yn dirywio o tua £40 miliwn (ac eithrio’r Adran Tir) i lai na £20 miliwn ac mae gan hyn oblygiadau amlwg ar gyfer Cymorth Grant a’r lefel gweithgaredd y gall yr Awdurdod ei gynnal. Bydd cyflawni targedau’r Strategaeth Datblygu Economaidd Genedlaethol yn golygu y bydd angen ffocws sylweddol ar y gweithgareddau hynny sydd ag effaith uniongyrchol ar dwf economaidd.

**Welsh Development Agency**